Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru
Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2010 **rhifyn** issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales **13**

Yn y rhifyn hwn
In this issue

Yn benwan am blaciau

Potty about plaques

Taith Afon Gwy a'i hartistiaid

The Wye Tour and its artists

Creu Cymuned – Parc y Ponciau

Community Creation – Ponciau Banks Park

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES
Rhifyn 13 Autumn 2010
Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:
Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

4-5 **Taith afon Gwy a'i Hartistiaid**
Julian Mitchell

8-9 **Ffermio'r Geiriau – Dehongli Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ddiweddaraf Cymru**
Bruce Langridge

12-13 **Myfyrio ar dirwedd gyfnewidiol drwy gelf**
Stuart Evans

16 **Atebion Serameg**
Sue Middleton

18 **Creu Cymuned**
Katie Holland

20 **Dewch i gwrdd â Gwneuthurwr (y Dehongliad)**

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
ffôn: 01600 860779

Clawr Blaen:
Cerflun 'Cerddoriaeth a Mwyngloddio' gyda'r offer a'r offerynnau, rhoddion gan y gymuned wedi'u gosod mewn carreg. Parc y Ponciau.

Rhannu trysorau Cymru

Mae *Cyfoeth Cymru Gyfan* yn gynllun sy'n galluogi amgueddfeydd lleol i adeiladu partneriaethau gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chyda'u harbenigedd a'u cyngor, uwchraddio cyfleusterau fel y gallant gael benthyg gwrthrychau o gasgliadau cenedlaethol a'u harddangos. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i weinyddu gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, mae grant *Cyfoeth Cymru Gyfan* yn parhau dros nifer o flynyddoedd i ganiatáu amser i benderfynu ar hyn sydd angen ei wneud a sut i'w wneud. Mae arddangosfa'n ben llanw ar y broses.

Canlyniad un o'r grantiau *Cyfoeth Cymru Gyfan* yw arddangosfa newydd yn Amgueddfa Cas-gwent, sy'n arddangos gwaith gan artistiaid o oes fawr lluniau dyfrlliw Prydain. Yn yr achos hwn mae'r 'cyfoeth' yn cynnwys mwy na 70 o luniau o gasgliadau yn y DU, gan gynnwys gwaith gan Turner, Paul Sandby, Michael 'Angelo' Rooker, Thomas Hearne a Joshua Cristall, sydd oll yn *artistiaid Taith Afon Gwy*. Mae eu peintiadau'n dangos y safleoedd a welwyd ac a ymwelwyd â hwy gan y twristiaid cyntaf a ddaeth i lawr yr afon mewn cychod rhwyfo â chanopïau yn hwyr yn y 18fed ganrif ac yn gynnar yn y 19eg ganrif. Gwnaethant ddilyn ôl y Parch. William Gilpin yr oedd ei lyfr wedi poblogeiddio Taith Dyffryn Gwy a'r cwest am olygfeydd 'pictiwrésg' - tirweddau a allai wneud peintiadau neu gael eu cymharu â hwy.

Curadur gwadd yr arddangosfa hon yw Julian Mitchell, sy'n byw yn Sir Fynwy ac sy'n angerddol dros y gweithiau celfyddydol mae'r ardal wedi'u hysbrydoli. Ac yntau'n fwyaf adnabyddus fel dramodydd a sgriptiwr ffilmiau, mae Julian hefyd yn 'ysgrifennwr gwadd' i ni gydag erthygl ar *Artistiaid Taith Afon Gwy*, sy'n nodi bod pobl heddiw, fel yn y 18fed ganrif, yn ansicr o hyd o sut y dylent ymateb i safleoedd hanesyddol a thirweddau trawiadol. Dyna lle mae dehongli da yn dod i'r adwy. Efallai ein bod yn meddwl bod yr hyn rydym yn ei wneud heddiw yn newydd ac yn wreiddiol, ond fwy na thebyg roedd y twristiaid artistig cynnar yn rhai o'r 'dehonglwyr' cyntaf o dirwedd Cymru. Erbyn hyn rydym â mwy o ddiddordeb yn y ffordd y mae tirwedd Cymru wedi ffurfio'r bobl sy'n byw ynddi, a'r ffordd y mae wedi effeithio ar y bobl sy'n teithio trwyddi, gan gynnwys y llu ymwelwyr sy'n dod i chwilio am ysbrydoliaeth artistig.

Gobeithiaf eich bod wedi mwynhau'r trysorau tirwedd a chelf sydd wedi cael sylw yn y rhifyn hwn. Os cawsoch eich ysbrydoli a'ch bod yn dymuno gwybod mwy am gomisiynu gwaith celf ac am rôl gosodweithiau celf mewn dehongli, yna nodwch yr 16eg a'r 17eg o Fehefin yn eich dyddiadur, pan fydd Dehongli Cymru yn cynnal cwrs deuddydd i egluro'r broses, gan ddefnyddio pecyn offer a ddatblygwyd gan Creu-ad ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Fe'i cynhelir ym Mhlas Tan y Bwlch.

Rwyf yn gobeithio eich bod yn mwynhau cynnwys celfydd y rhifyn hwn. Rwyf hefyd yn gobeithio eich bod yn hoffi'r un cyntaf o'n herthyglau tudalen ôl newydd, sy'n edrych y tu ôl i'r llenni ar rai o'r bobl sy'n 'creu' dehongliadau yng Nghymru. Os ydych yn hoffi'r syniad rhowch wybod i ni ynghyd â'ch awgrymiadau am bobl y gallwn eu cynnwys yn y dyfodol. Yn y rhifyn hwn rydym yn canolbwyntio ar y crochenydd Ned Heywood sy'n cynhyrchu'r placiau serameg a ddangosir ar dudalennau 16-17. Yn olaf hoffwn ddiolch i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am y cyfleithiadau ac i'n holl gyfranwyr. Ni fyddai gennym gylchgrawn heboch chi. A diolch hefyd i bawb a ymatebodd gyda syniadau a gwybodaeth ar gyfer y rhifyn hwn. Cawsom ddetholiad bendigedig. Ymddiheuriadau i'r rhai nad oeddem yn medru eu cynnwys.

Margaret Jones, Troad yn yr heol, llun ysgrifbin ac inc, Amgueddfa Ceredigion
Margaret Jones, Bend in Road, pen and ink drawing, Ceredigion Museum

Warchodfa Natur Genedlaethol Waun Las
Waun Las National Nature Reserve

Sharing the treasures of Wales

Sharing Treasures is a scheme which enables local museums to build partnerships with the National Museum Wales and, with their expertise and advice, upgrade facilities so that they can borrow and display objects from national collections. Funded by the Welsh Assembly Government and administered by CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales, a *Sharing Treasures* grant runs over several years to allow time to work out what needs to be done and how to do it. An exhibition is the culmination of the process.

The end result of one *Sharing Treasures* grant is a new exhibition at Chepstow Museum, showcasing works by artists from the great age of British Watercolours. In this case the 'treasures' include over 70 pictures from UK collections, including work by Turner, Paul Sandby, Michael 'Angelo' Rooker, Thomas Hearne and Joshua Cristall, all *artists of the Wye Tour.* Their paintings show the sites viewed and visited by the first tourists who came down the river in canopied rowing boats in the late 18th and early 19th century. They followed in the wake of the Rev William Gilpin whose book popularised the Wye Tour and the quest for 'picturesque' scenery - landscapes that could make, or be compared to, paintings.

Guest curator of this exhibition is Julian Mitchell, who lives in Monmouthshire and has a passion for the works of art that the area has inspired. Best known as a playwright and screenplay writer, Julian is also 'guest writing' for us with a feature on the *Artists of the Wye Tour*, pointing out that today, just as in the 18th century, people are unsure about how they should respond to spectacular landscapes and romantic ruins. That's where good interpretation comes in.

We may think what we are doing today is new and original, but the early artistic tourists were probably some of the first 'interpreters' of the Welsh landscape. Today we are more interested in the way in which the landscape has shaped the people who live in it, and the way in which it has affected the people who pass through it, including the many visitors who have come looking for artistic inspiration.

I hope you enjoy the treasures of landscape and art shared in this issue. And if you've been inspired and want to find out more about commissioning artwork and the role of installation art in interpretation then put 16th - 17th June in your diary, when Interpret Wales will be running a two day course aiming to demystify the process, using a toolkit developed by Creu-ad for Forestry Commission Wales. It will be held at Plas Tan y Bwlch.

I also hope you like the first of our new back page features, looking behind the scenes at some of the people who 'make' interpretation in Wales. If you like the idea let us know along with your suggestions for people we can include in the future. In this issue we focus on potter Ned Heywood who produces the ceramic plaques featured on pages 16-17. Finally I'd like to say thank you to Forestry Commission Wales for translations and to all our contributors. We wouldn't have a magazine without you. And also thanks to everyone who responded with ideas and information for this issue. We had a wonderful selection. Apologies to those we couldn't fit in.

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU
Issue 13 Spring 2010
Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the agencies whose logos appear below.

Contents

6-7 **The Wye Tour and its Artists**
Julian Mitchell

10-11 **Farming out the words – Interpreting Wales' Newest National Nature Reserve**
Bruce Langridge

14-15 **Reflecting on a changing landscape through art**
Stuart Evans

17 **Ceramic Solutions**
Sue Middleton

19 **Community Creation**
Katie Holland

20 **Meet the (Interpretation) Maker**

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front Cover:
'Music & Mining' sculpture from the 2006 Artist in Residency project at Ponciau Banks Park.

Paul Sandby,
Chepstow Castle, c.1775,
©V&A Lluniau / Images/Victoria and
Albert Museum, Llundain / London

Efallai yn fwyaf adnabyddus am ei sgriptiau ffilm ar gyfer 'Inspector Morse', menter ddiweddaraf ***Julian Mitchell*** yw 'Curadur Gwadd' o arddangosfa newydd bwysig yn Amgueddfa Cas-gwent.

Taith afon Gwy a'i hartistiaid

Sefydlwyd Taith Afon Gwy gan ficer Y Rhosan ar Wy tua 1750. Uchelwr ifanc cyfoethog ydoedd ac roedd yn hoff o ddarparu adloniant ar raddfa fawr ac yn berchen ar gwch pleser a adeiladwyd yn arbennig er mwyn mynd a'i westeion ar deithiau ar yr afon. Mae'n bosibl mai o'r teithiau hyn ddatblygodd teithiau trefnedig cyntaf Prydain o'r Rhosan lawr i Gas-gwent. Galwodd y cwch yng Ngwydris i archwilio'r castell, ac islaw clogwyni Coldwell i gael cinio, cyn dringo craig Symonds Yat a disgyn eto i'r Gored Newydd. Yno, edmygodd y teithwyr y rhaeadrau a'r efail cyn dychwelyd i'r cwch ac anelu am Fynwy i dreulio'r nos. Prif atyniad yr ail ddiwrnod oedd Abaty Tyndyrn, yn ogystal â dringo Wyndcliff er mwyn cael golygfa gofiadwy ar draws Môr Hafren o'r brig, a thaith gerdded trwy Piercefield at gastell a phont Cas-gwent. O'r fan honno, roedd hi'n bosibl cymryd fferi yn ôl i Loegr neu tua'r gorllewin i Gymru.

Esthetwyr yn bennaf oedd y twristiaid cyntaf, gan gynnwys y bardd Thomas Grey a'r Parchedig William Gilpin, a theithiodd y ddau i lawr yr afon ym 1770 ar drywydd tirweddau. Prifathro go benderfynol oedd Gilpin yn meddu ar syniadau pendant ynghylch pa olygfeydd o'r Gwy oedd yn "gywir bictiwrésg" ai peidio. Cyhoeddodd Observations ym 1783, sef ei sylwadau ynghylch y daith, a datblygodd y rhain yn feibl i dwristiaid maes o law. Roedd llawer o bobl yn pryderu nad oedden nhw'n gwybod sut i ymateb i dirluniau, adfeilion neu hyd yn oed i ddiwydiant (ac maent yn poeni am hyn o hyd), ond dysgodd Gilpin iddynt sut i wneud, ac yn aml copïodd twristiaid ei eiriau gair am air i mewn i'w dyddiaduron. Yr unig drafferth oedd y gair "pictiwrésg"; roedd pawb yn ei ddefnyddio heb wybod yn iawn beth oedd ei ystyr. Diffiniodd Gilpin y gair fel a ganlyn yn unig: "yr hyn fyddai'n gwneud llun da", ac roedd hyn yn ochelgar ac yn amwys. Ystyriodd Gilpin dirlun gan Claude neu Poussin yn llun da, er nad oedd golygfeydd yr artistiaid o dir ac o wladwyr yr Eidal yn debyg o gwbl i'r hyn a welwyd yn Nyffryn Gwy. Felly, er bod pawb yn defnyddio geirfa debyg, daeth "pictiwrésg", "arddunol", "rhamantus" a "phrydferth" i olygu pethau gwahanol i bobl wahanol tan iddynt oll ddatblygu i fod yn ddiystyr bron.

Yn ogystal â'r ymagwedd esthetig a phryderus Ewropeaidd ar adegau tuag at dirluniau, roedd yna islif Prydeinig yn parhau. Gwerthfawrogwyd yn fawr synnwyr prudd-glwyfus yn y ddeunawfed ganrif ac roedd hynny'n hawdd i'w gyflawni trwy ddarlun o gastell neu abaty'n adfeilio. Ond, roedd hi'n bosibl i dwristiaid orfoleddu ar y fath olygfeydd yn ogystal, gan eu bod nhw'n profi fod gormeswr canol oesol wedi'i dymchwel er mwyn i'r hyn a elwid yn rhyddid gael ffynnu - "Ni fydd Prydeinwyr fyth yn gaethweision!" Roedd y darnau o sgriniau côr amluredig a welwyd yn Abaty Tyndyrn yn dystiolaeth o fuddugoliaeth y Protestaniaid gonest Prydeinig dros Gatholigiaeth Rufeinig sinistr. Diolch i'r Rhyfeloedd Napoleanaidd roedd teithio yn Ewrop yn anodd a chynyddodd poblogrwydd y teithiau'n fawr, ynghyd â'r fath deimladau gwladgarol. Peth arall oedd yn creu balchder cenedlaethol oedd y diwydiant oedd i'w weld ar lannau'r afon. Roedd pobl yn hoff o sŵn, mwg a fflamau'r gweithfeydd haearn, gyda'r haearn o bosibl yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu gynnau i ladd y Ffrancwyr. Roedd y llefydd hyn yn llawn cyffro i'r ymwelwyr, yn enwedig gyda'r nos. Fodd bynnag, nid oedden nhw'n hoff o'r nifer o gardotwyr oedd yn bresennol yn y prif leoliadau twristaidd; roedd diweithdra uchel a thlodi amlwg y Nyffryn Gwy. Yn Nhyndyrn, priodolwyd hyn ar ymddygiad gwrthgymdeithasol y mynachod a'r ffaith i'w rhoddion (dau gant a hanner o flynyddoedd ynghynt) danseilio annibyniaeth y bobl leol yn angheuol.

Nid wyf yn hanesydd proffesiynol, yn enwedig ym maes celfyddyd, ond cyn dechrau ar fy ngyrfa fel nofelydd, dramodydd a sgriptiwr, dechreuais astudio ar gyfer D. Phil yn Rhydychen ar hanes yr ail ganrif ar bymtheg, er na lwyddais i orffen y cwrs. Rwyf wedi teimlo braidd yn euog am hyn erioed, a phan deuthum i fyw yn Sir Fynwy ym 1980, roeddwn yn falch iawn o fyw rhyw hanner milltir i ffwrdd o'r cartref lle bu Nathan Rogers, hanesydd cyntaf y sir, yn byw. Tywysodd hyn fi yn ôl at ymchwil hanesyddol, a chyn hir darganfyddais Daith Afon Gwy. Darllenais waith Gilpin a darganfod bod bron pob un o arlunwyr amlycaf "oes aur y dyfrlliwiau Prydeinig" wedi ymweld â'r afon - gan gynnwys J.M.W. Turner, Samuel Palmer, Michael "Angelo" Rooker, David Cox ac eraill. Gan fraslunio lluniau i'w cwblhau wedi iddynt gyrraedd gartref, anaml y byddai'r artistiaid

yn mynd ar y daith ddeuddydd. Mae arlunio'n cymryd amser ac yn mynnu eich bod yn canolbwyntio ar un man, ac nid yw cwch sy'n symud yn dda i ddim yn y cyd-destun hwnnw. Ar droed y gwelodd nifer o artistiaid, gan gynnwys J.M.W. Turner, yr ardal. Yn ogystal, darganfyddais na wnaeth yr artistiaid gymryd fawr o sylw o Gilpin nac o'r ddamcaniaeth pictiwrésg. Roeddwn yn chwilfrydig ynglŷn â'r bwlch hwn rhwng damcaniaeth ac ymarfer, ac fe ddechreuais gadw cofnod o holl ddelweddau'r daith y gallem eu canfod, a chyn hir darganfyddais rywbeth arall. Yn bennaf, topograffig oedd yr arlunwyr cynharach - hynny yw, roedden nhw'n ceisio dangos sut roedd y llefydd yn edrych go iawn. Ond yn dilyn troad y ganrif, roedd artistiaid yn dangos llai o ddiddordeb mewn dangos a mwy o ddiddordeb mewn mynegi eu teimladau personol o flaen y pwnc.

Cytunodd HTV i fi gynhyrchu pedair rhaglen deledu hanner awr o hyd, a welodd fy nai a'i ffrind yn fy rhwyfo i lawr yr afon er mwyn gweld faint o'r daith wreiddiol (a ddaeth i ben gyda dyfodiad y rheilffordd yng nghanol y 19eg ganrif) oedd yn dal i fodoli. Yn anffodus, suddodd ein cwch yn Llandogo - mae dŵr bas a hen goredau wedi difetha Afon Wy ers cannoedd o flynyddoedd. Ond erbyn hynny roedden wedi sylweddoli fod yr Afon Gwy yn dawelach yn awr ac efallai'n fwy prydferth na phan ddaeth Wordsworth yma ym 1793. Mae'r diwydiant wedi diflannu; a'r badau a'r rheilffordd o'i ôl hefyd. Ac mae'r coedwigoedd ar lannau'r afon yn fwy gwyllt nag yr oedden nhw ddwy ganrif ynghynt, pan fyddent yn cael eu torri'n rheolaidd er mwyn bwydo'r ffwrneisiau.

Wedi deg mlynedd ar hugain o archwilio Taith Afon Gwy a'i hartistiaid, roeddwn fwy neu lai'n barod pan wahoddodd Anne Rainsbury i fi guradu'r arddangosfa hon. Ac wedi hanner can mlynedd, gobeithiaf fy mod yn ad-dalu'r ffydd sydd gan bobl ynof fel hanesydd.

Mae Julian Mitchell sy'n byw yn Sir Fynwy yn ysgrifennydd sgriptiau ffilm a dramodydd, sy'n fwy enwog am ei waith ar 'Another Country' a 'Inspector Morse'.

Mae *Taith yr Afon Gwy a'i Hartistiaid* yn rhedeg o Fai 1af - Medi 5ed yn Amgueddfa Cas-gwent.
Cysylltwch â Anne Rainsbury
t. 01291 625981

JMW Turner, *The Chancel and Crossing of Tintern Abbey, Looking towards the East Window* 1794
©Tate, Llundain / London 2008

Edward Dayes, *Tintern Abbey, Monmouthshire, and the River Wye*, 1794, ©The Whitworth Art Gallery, Prifysgol Manceinion / The University of Manchester

John Martin, *The Wye Valley, View from Wyndcliffe looking towards Chepstow,* 1844, ©The Whitworth Art Gallery, Prifysgol Manceinion / The University of Manchester

Perhaps best known for his writing for stage and screen, ***Julian Mitchell's*** latest venture is as a 'Guest Curator' of a major new exhibition at Chepstow Museum.

The Wye Tour and its artists

The Wye Tour was invented by the vicar of Ross on Wye about 1750. He was a rich young aristocrat who entertained on a large scale and had a pleasure boat built to take his guests on the river. From this developed perhaps the first package tour in Britain from Ross down to Chepstow. You stopped at Goodrich to explore the castle, took your lunch below the cliffs at Coldwell, then climbed up to Symonds Yat rock from which you slithered down to New Weir. There you admired the cascade and the forge before getting back into your boat for Monmouth, where you spent the night. The great sight on the second day was Tintern abbey, after which there was Wyndcliff up which you toiled for its splendid views across the Bristol Channel, before taking the celebrated walks through Piercefield which brought you to Chepstow with its castle and bridge. From there you could take a ferry back to England, or head west into Wales.

The first tourists were mainly aesthetes, like the poet Thomas Grey and the reverend William Gilpin, who both came down the river in 1770 in search of landscape. Gilpin was a rather stout schoolmaster with definite ideas about which Wye views were and which were not "correctly picturesque". His Observations on the tour, published in 1783, became later tourists' bible. Many people were (and are) afraid that they don't know how to respond to landscape or ruins or, indeed, industry, but Gilpin told them, and tourists often copied him word for word into their diaries. The only trouble was the word "picturesque"; everyone used it, but no one knew quite what it meant. Gilpin himself defined it only as "What would make a good picture", which was evasive and vague. His own idea of a good picture was a landscape by Claude or Poussin, whose Italian scenes and peasantry weren't at all like those of the Wye valley. So though everyone used the same vocabulary, "picturesque", "sublime", "romantic" and "beautiful" all came to mean different things to different people till they eventually became almost meaningless.

As well as the aesthetic and sometimes worryingly European approach to landscape there was the British. A pleasing melancholy was much appreciated in the eighteenth century and it could easily be achieved by the prospect of a ruined castle or abbey. But tourists could also rejoice that they showed how the power of medieval tyrants had been overthrown to make way for what then passed as liberty – "Britons never shall be slaves!" Equally, the bits of collapsed choir screen at Tintern abbey were evidence of the triumph of honest British Protestantism over sinister Roman Catholicism. When the Napoleonic wars made European travel difficult, the tour's popularity increased greatly, along with such patriotic feelings. Another reason for national pride was the amount of industry on the river's banks. People liked the noise and the smoke and flames of the iron forges, with the iron perhaps going to make guns to slaughter the French. They found them very exciting, specially at night. They did not, however, like the number of beggars at the main tourist sights; there was much unemployment and poverty in the Wye valley. At Tintern, this was attributed by the ungenerous to the anti-social behaviour of the monks whose hand-outs (two hundred and fifty years earlier) had fatally undermined native independence.

I am not a professional historian, least of all of art, but before embarking on a career as a novelist, playwright and screenwriter, I did start an Oxford D. Phil on seventeenth century History which I never finished. I've always felt rather guilty about this, and when I came to live in Monmouthshire in 1980, I found to my great delight that I was living half a mile down the hill from where Nathan Rogers, the county's first historian, had lived. This sent me back to historical research, and I soon discovered the Wye Tour. I read Gilpin, and found that almost all the major painters of the "great age of British water-colours" came to the river – including J.M.W. Turner, Samuel Palmer, Michael "Angelo" Rooker, David Cox and many others. Sketching for pictures to be worked up when they got home, artists rarely took the two-day tour. Drawing requires time and concentration on one spot, and a moving boat is no use for that. Many, like J.M.W. Turner, walked. They also, I discovered, paid almost no attention at all to Gilpin or picturesque theory. Intrigued by this gap between theory and practice, I began making an index of all the pictures of the tour I could find, and soon made a further discovery. The earlier painters were mainly topographical – that is, they were trying to show what the places looked like. But as time went on, and particularly after the turn of the century, artists became less interested in illustration and more in expressing their own feelings in front of the subject.

I persuaded HTV to let me make four half-hour TV programmes in which my nephew and a friend of his rowed me down the river to see how much of the original tour (which more or less ceased with the arrival of the railway in the mid-19th century) survived. I'm afraid I sank the boat at Llandogo – low water and old weirs have been the bane of the Wye for hundreds of years. But by then I had realised that the Wye is quieter and perhaps even more beautiful now than it was when Wordsworth came in 1793. The industry has gone; the barges have gone; the railway has gone. And the woods on the banks are wilder than they were two hundred years ago, when they were regularly pollarded to feed the furnaces.

After thirty years of exploring the Wye Tour and its artists, I was just about ready when Anne Rainsbury from Chepstow Museum invited me to be the guest curator of this exhibition. And after fifty years I am, I hope, repaying the faith people had in me as an historian.

Monmouthshire resident Julian Mitchell is a playwright and screenplay writer, best known for his work on Another Country and Inspector Morse.

The Wye Tour and its Artists
runs at Chepstow Museum
from May 1st – September 5th
Contact Anne Rainsbury 01291 625981
e. annerainsbury@monmouthshire.gov.uk

David Cox, *Wyndcliffe on the Wye*, 1831,
©V&A Lluniau / Images/Victoria and
Albert Museum, Llundain / London

Ffermio'r gerriau

dehongli gwarchodfa natur genedlaethol ddiweddaraf Cymru

Gwnaethom ddefnyddio'r un cynllun lliw ar gyfer pob arwydd deongliadol, bandiau cyson ar y brig, logos ar y gwaelod a darluniau yn y canol rhwng y ddwy iaith. We used the same colour scheme for each interpretive sign, a consistent banded top, logos at the bottom and illustrations in the middle to straddle the two languages.



C: Beth sydd gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yr hoffai pob gardd fotaneg genedlaethol arall drwy gydol y byd ei chael?

A: Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) 400 erw.

Bydd ***Bruce Langridge*** yn mynd â ni drwy'r broses o ddehongli NNR ddiweddaraf Cymru.

Dychmygwch dafell 400 erw o gefn gwlad swynol sy'n cynnwys mosäig o dir fferm, gwlypdir a choetir organig amrywiol, sy'n gartref i gannoedd o rywogaethau planhigion gwyllt ac amrywiaeth gyfoethog o fywyd sy'n dibynnu ar y planhigion – yn union ar garreg drws Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Dyna gyfle bendigedig i gyfleu'r cysylltiad rhwng ffermio a bioamrywiaeth i ymwelwyr. Mae'n lle digon mawr i gynnal technegau rheoli tir arloesol, yn barod i'w ddehongli, ac mae'n syfrdanol bod yr adnodd hwn wedi aros heb ei ddarganfod gan ymwelwyr i'r ardd, i raddau helaeth, am 8 mlynedd. Ond roedd clwydi, diffyg mapiau ac arwyddion cyfeirio yn gwneud archwilio'n dipyn o ddirgelwch.

Newidiodd hyn i gyd yn 2008 pan ddynododd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) y tir hwn yn Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Waun Las er mwyn cydnabod ei botensial addysgol a deongliadol ar gyfer ymestyn allan i'r 130,000 o ymwelwyr i'r Ardd bob blwyddyn.

Y cam cyntaf o ran dehongli'r NNR newydd oedd creu Cynllun Dehongli. Tynnodd Carl Atkinson, Pennaeth Adran Gyfathrebu'r CCGC wybodaeth, persbectif

a syniadau ohono i, fel Swyddog Dehongli'r Ardd, a Tim Bevan, Rheolwr Ystad yr Ardd.

Ar ôl amlinellu ein nodau ac amcanion, gwnaethom archwiliad o'r adnoddau a gynigir gan yr NNR megis bioamrywiaeth, mynediad, cyfyngiadau a seilwaith staffio o fewn yr Ardd Fotaneg ffurfiol. Gwnaethom archwilio pwy mae'n cynulleidfaoedd yn debygol o fod, ac wedyn gwnaethom nodi'r themâu yr hoffem eu cyflwyno.

Roeddem eisiau un brif thema i'n helpu i drefnu'r holl ymdrechion deongliadol, y gellid eu dadbacio i is-themâu er mwyn datgloi'r manylion ac awgrymu pa elfennau penodol o ddehongli y gallem eu gwneud. Ar ôl i ni benderfynu ar y thema, 'Mae arferion ffermio'n hanfodol er mwyn gwarchod bywyd planhigion cynhenid Cymru' daeth y 10 is-thema a ddilynodd yn rhwydd, megis 'Mae Capiau Cwyr yn ffynnu yn y porfeydd hyn oherwydd fe'u porir gan ddefaid sy'n cadw'r glaswellt yn fyr iawn, ac ni ddefnyddir unrhyw gemegau ar y tir hwn.' Helpodd yr eglurder hwn o ran diben i achosi'r siart weithredu ar ddiwedd y cynllun dehongli ddisgyn i'w lle'n rhwydd.

Nesaf gwnaethom gwblhau Cynllun Mynediad. Roedd hyn yn asesu deddfwriaeth a pholisïau'r Ardd Fotaneg, niferoedd o ymwelwyr a nodweddion, mynediad cyfredol at ac o fewn yr NNR, cyfleusterau i ymwelwyr, rhesymau pam bydd pobl yn ymweld, diddordeb gan randdeiliaid, defnydd addysgol, diogelwch y safle a chapasiti'r safle. Allan o hyn gwnaethom greu gweledigaeth o fynediad y deilliodd blaenoriaethau mynediad a chynllun gweithredu ohoni.

Rhoi'r Cynlluniau Dehongli a Mynediad ar Waith

Bu i ni greu un fynedfa fawr a rhwydwaith o lwybrau a farciwyd gan arwyddbyst lliw. Roedd y rhain yn cynnwys yr holl nodweddion y gwnaethom nodi yn y cynllun dehongli. Torrwyd y glaswellt ar y llwybrau er mwyn gwneud cerdded a chyfeiriadedd yn haws. Gwnaethom osod gatiau mochyn rhwng caeau yn hytrach na chamfeydd oherwydd bod ein proffil ymwelwyr yn dangos ein bod yn cael ymweliadau i rannau helaeth gan bobl dros 50 oed.

Gwnaethom gomisiynu arwydd Croeso gan Robert Jakes, cerflunydd coed o Sir Benfro. Roedd rhaid iddo ddal map, didolwr taflenni, daliwr arwydd i hysbysebu teithiau cerdded tywysedig a digwyddiadau i ddod, ac roedd rhaid iddo fod yn weladwy o ardal ffurfiol yr Ardd ond yn gweddu i'r dirwedd. Ar yr arwydd derw a'r tair mainc dderw a gomisiynwyd, gwnaethom ofyn i Robert gerfio lluniau llinell o blanhigion pwysig ar yr NNR, a oedd yn gweddu i'r thema ddeongliadol ganolog. Cafodd y meinciau eu lleoli ym mannau prydferth yr NNR.

Gwnaethom greu 10 arwydd deongliadol ar hyd y teithiau cerdded. Cadwodd pob un at y thema gyffredinol a'r 10 is-thema a nodwyd yn y Cynllun Dehongli. Roedd pob arwydd yn cynnwys uchafswm o 150 o eiriau a defnyddiodd yr egwyddorion deongliadol da a sefydlwyd eisoes yn y Gerddi ffurfiol:

- dewis geiriau byrrach yn hytrach na rhai hirach,
- cadw paragraffau a brawddegau'n fyr,
- un syniad ar gyfer pob brawddeg,
- siarad â'r darllenydd yn y person cyntaf,
- defnyddio berfau gweithredol yn hytrach na rhai goddefol,
- gofyn cwestiynau a defnyddio cyn lleied o derminoleg wyddonol â phosibl.

Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys 2-4 o ddarluniau, a gomisiynwyd o Joanne Glover o'r Amwythig. Cafodd y dylunio graffeg ar gyfer pob panel ei greu gan Jon Dixon o Anglezarke Dixon Associates sydd yn Aberhonddu. Roedd y lliwiau, y ffurfdeip a'r cynllun cyffredinol yn gyson drwyddi draw. Roeddem eisiau arwyddion y gellid eu glynu wrth nodweddion megis boncyffion coed, gatiau mochyn a physt ffensys, cafodd Jon y syniad gwych o ffitio'r arwydd dros gefn pren y gellid ei adnewyddu. Rhoddwyd pob arwydd i fyny ar tua 1 metr o uchder a phob tro yn agos i'r llwybr. Er mwyn helpu'r ymwelwyr gyfeiriadu eu hunain a theimlo'n hyderus ar hyd eu taith gerdded gwnaethom greu map, a thaflen fach maint hanner A5. Roedd y rhain yn cyd-fynd o ran graffeg gyda'r arwyddion deongliadol a chadwyd ond ychydig o destun ar wahân i rywfaint o gyngor ar y cod cefn gwlad. Mae pob taith gerdded sydd wedi'i marcio yn rhoi amcan o'r amser y byddai'n cymryd i'w cerdded yn hamddenol.

Ar ôl i ni sefydlu'r dehongliadau parhaol ar y safle, gwnaethom gyflwyno Stephen Manning o Ddyfnaint i ddarparu hyfforddiant ar deithiau cerdded tywysedig ar gyfer gwirfoddolwyr a darperais i fanylion a brwdfrydedd am yr NNR. Ers hynny rydym wedi cynnal 10 o deithiau cerdded ar gyfer dros 100 o ymwelwyr.

Y cam nesaf

Yn 2010, rydym am ymestyn ein rhwydwaith o lwybrau troed i gynnwys coetir hynafol. Defnyddiwyd yr un egwyddorion dehongli ar gyfer hyn ac yn fuan byddwn yn chwilio am dywyswyr teithiau newydd a fydd yn arbenigo ar y daith gylchol un awr hon.

Gwerthuso

Mae teithiau cerdded tywysedig wedi ysgogi llawer o adborth gan ymwelwyr a chan y cerddwyr tywysedig eu hunain. Mae angen i ni gyflwyno cownter gât mochyn a chyfrif y nifer o daflenni a gymerir gan ymwelwyr. Ar yr arolwg ymwelwyr a gomisiynir nesaf gan yr Ardd Fotaneg, byddwn yn mesur y canran o ymwelwyr i'r Ardd sy'n ymweld â'r NNR a'u safbwynt ar ôl yr ymweliad ynglŷn â'r hyn mae'r NNR yna i'w wneud. Os bydd hyn yn adlewyrchu'r thema ddeongliadol ganolog 'Mae arferion ffermio'n hanfodol ar gyfer gwarchod bywyd planhigion cynhenid Cymru' bydd gennym well syniad o ba mor llwyddiannus mae'r dehongliad wedi bod.

Mae Bruce Langridge yn
Swyddog Dehongli ar gyfer
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
e-bost bruce@etronfou.co.uk

Gwnaed meinciau a gomisiynwyd â chefn, i roi cyfle i ymwelwyr blinedig eistedd yn ôl, ymlacio a mwynhau'r golygfeydd.
Commissioned benches were made with a back, to allow weary visitors the chance to sit back, relax and enjoy the views.

Farming out the words

Question: *What does the National Botanic Garden of Wales possess that all other national botanic gardens throughout the world would like?*

Answer: *A 400 acre National Nature Reserve (NNR).*

***Bruce Langridge** takes us through the process of interpreting Wales's newest NNR.*

Imagine a 400 acre slice of fascinating countryside made up of a mosaic of diverse organic farmland, wetland and woodland, home to hundreds of wild plant species and a rich diversity of life that depends on the plants - right on the doorstep of the National Botanic Garden of Wales. What a wonderful opportunity to communicate the link between farming and biodiversity to visitors. A large enough area to carry out innovative land management techniques, ripe for interpretation, it's amazing that this resource lay relatively undiscovered by garden visitors for 8 years. But gates, no maps and directional signs made exploration an unknown quantity.

All this changed in 2008, when the Countryside Council for Wales (CCW) designated this land as Waun Las National Nature Reserve (NNR) in recognition of its educational and interpretational potential for reaching out to the Garden's 130,000 annual visitors.

The first step to interpreting the new NNR was to create an Interpretation Plan. Carl Atkinson, CCW's Head of Communications Section teased out information, perspective and ideas from myself, as the Garden's Interpretation Officer, and Tim Bevan, the Garden's Estate Manager.

After outlining our aims and objectives, we carried out an audit of the resources offered by the NNR such as its biodiversity, access, constraints and staffing infrastructure and interpretation within the formal Botanic Garden. We examined who our audiences might be, then identified the themes we'd like to communicate.

We wanted one main theme to help organise all of the interpretive effort, which could be unpacked into sub-themes to unlock the detail and suggest what particular elements of interpretation we might do. Once we had decided on the theme, *'Farming practices are essential to conserve native Welsh plant life'* the 10 sub-themes that followed came easily, such as *'Waxcaps flourish in these pastures because they are grazed by sheep which keep the grass very short, and because no chemicals are used on this land.'* This clarity of purpose helped to make the action chart at the end of the interpretation plan fall easily into place.

Next we completed an Access Plan. This assessed legislation and Botanic Garden policies, visitor numbers and characteristics, current access onto and within the NNR, visitor facilities, reasons why people visit, stakeholder interest, educational use, site safety and site capacity. From this we created an access vision from which stemmed access priorities and an action plan.

Chwilio am degeirianau ar daith dywysedig
Looking for orchids on a guided tour

Actioning The Interpretation and Access Plans

We created one major entrance point and a network of paths marked out by coloured waymarker posts. These took in all of the features we'd identified in the interpretation plan. Paths were mown to make walking and orientation easier. We installed kissing gates between fields rather than styles as our visitor profile shows we are largely visited by over 50s.

We commissioned a Welcome sign from Robert Jakes, a wood sculptor from Pembrokeshire, This had to hold a map, a leaflet dispenser, a sign holder to advertise upcoming guided walks and events, and it had to be visible from the formal Garden area but be in keeping with the landscape. Onto the oak sign and three commissioned oak benches, we asked Robert to carve in line illustrations of important plants on the NNR, in keeping with the central interpretive theme. The benches were sited in the NNR's beauty spots.

We created 10 interpretive signs along the walks. Each adhered to the overall theme and the 10 sub-themes identified in the Interpretation Plan. Each sign contained a maximum of 150 words and used the good interpretive principles already established in the formal Gardens:

- choosing shorter rather than longer words,
- keeping paragraphs and sentences short,
- one idea per sentence,
- addressing the reader in the first person,
- using active rather than passive verbs,
- posing questions and keeping scientific terminology to a minimum.

Most featured 2-4 illustrations, commissioned from Joanne Glover from Shrewsbury. The graphic design for each panel was created by Jon Dixon of *Anglezarke Dixon* Associates based in Brecon. The colours, typeface and overall design were consistent throughout. We wanted signs that could be attached to existing outdoor features such as tree stumps, kissing gates and fence posts, and Jon came up with a great idea of fitting the sign over a replaceable wooden back. Each sign was mounted roughly 1m high and always next to the pathway.

To help visitors orientate themselves and to feel confident along their walk, we created a map, and small half A5 leaflet. These were graphically in harmony with the interpretive signs and text was kept to a minimum apart from some country code advice. All marked walks gave an indication of the time it would take to walk them at a gentle pace.

Once we had the permanent on-site interpretation in place, we brought in Stephen Manning from Devon to provide guided walk training for volunteers and I provided details and enthusiasm about the NNR. We've since run 10 guided walks to over 100 visitors.

The Next Stage

In 2010, we are extending our footpath network to include an ancient woodland. The same principles of interpretation have been used for this and we'll soon be looking for new tour guiders who will specialise in this new one hour circular walk.

Evaluation

